

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y BIL DIOGELWCH AR-LEIN

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, a chyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw un o Filiau Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Diogelwch Ar-lein ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022. Mae'r Bil i'w weld yma:  
<https://bills.parliament.uk/bills/3137>.

### Amcanion y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai amcan y polisi yw sefydlu cyfundrefn reoleiddio newydd i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar-lein, gyda'r nod o atal niwed i unigolion, gan wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.
4. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr a gwasanaethau chwilio sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig i unrhyw reoleiddio sy'n ymwneud â diogelwch defnyddwyr. Mae'r Bil yn gosod gofynion cyfreithiol ar:
  - a) Darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, a lanlwythir neu a rennir gan ddefnyddwyr eraill, h.y. cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr");
  - b) Darparwyr chwilotwyr sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data lluosog ("gwasanaethau chwilio");
  - c) Darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd y mae cynnwys pornograffig yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos arnynt.
5. Mae'r Bil yn rhoi pwerau newydd i'r Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM) sy'n eu galluogi hi i weithredu fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein.

### Crynodeb o'r Bil

6. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

7. Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn cyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd a fydd yn gosod gofynion cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, a lanlwythir neu a rennir gan ddefnyddwyr eraill a chwilotwyr sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data lluosog. Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig wneud y canlynol:
  - a) Asesu eu sylfaen defnyddwyr a'r risgiau o niwed i'r defnyddwyr hynny sy'n bresennol ar y gwasanaeth;
  - b) Cymryd camau i liniaru a rheoli'r risgiau o niwed i unigolion sy'n deillio o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon, ac (ar gyfer gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant) cynnwys a gweithgarwch sy'n niweidiol i blant;
  - c) Sefydlu systemau a phrosesau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a phersonau yr effeithir arnynt roi gwybod i'r darparwr gwasanaeth am fathau penodedig o gynnwys a gweithgarwch;
  - d) Sefydlu gweithdrefn gwyno dryloyw a hawdd ei defnyddio sy'n caniatáu i fathau penodedig o gwynion gael eu gwneud;
  - e) Ystyried pwysigrwydd diogelu hawliau cyfreithiol defnyddwyr i ryddid mynegiant a diogelu defnyddwyr rhag achosion o dorri'r hawl gyfreithiol i breifatrwydd wrth weithredu polisïau a gweithdrefnau diogelwch;
  - f) Rhoi systemau a phrosesau ar waith a gynlluniwyd i sicrhau bod cynnwys sy'n gysylltiedig â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSEA) sydd wedi'i ganfod ond heb ei hysbysu yn cael ei adrodd i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA).
8. Bydd gofynion cyfreithiol ychwanegol yn cael eu gosod ar wasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr sy'n bodloni amodau trothwy a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi mewn telerau gwasanaeth clir sut y caiff cynnwys cyfreithiol ond niweidiol i oedolion ei drin ac asesu a chyhoeddi camau a gymerir i ddiogelu hawliau cyfreithiol defnyddwyr i ryddid mynegiant a phreifatrwydd defnyddwyr.
9. Bydd dyletswydd ar wasanaethau chwilio sy'n bodloni amodau trothwy ychwanegol i lunio adroddiadau tryloywder blynyddol ac i roi systemau a phrosesau cymesur ar waith i atal y risg y bydd defnyddwyr yn dod ar draws hysbysebion twyllodrus.
10. Bydd OFCOM yn gyfrifol am orfodi'r gofynion cyfreithiol a osodir ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i OFCOM lunio codau ymarfer ar gyfer darparwyr gwasanaethau, gan nodi'r camau a argymhellir y gall darparwyr eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r pwerau newydd a roddir i OFCOM yn cynnwys y pŵer i roi hysbysiadau gorfodi ac i osod cosbau ariannol.
11. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd sy'n darparu deunydd pornograffig drwy'r gwasanaeth (yn hytrach na galluogi defnyddwyr i gynhyrchu neu rannu cynnwys o'r fath) sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws y cynnwys pornograffig hwnnw.

12. O fewn y Bil, mae tair trosedd cyfathrebiadau newydd yn cymryd lle troseddau cyfathrebiadau presennol: trosedd cyfathrebiadau niweidiol, trosedd ffug gyfathrebiadau a throsedd cyfathrebiadau bygythiol, ac mae trosedd "seiberfflachio" newydd yn cael ei chreu hefyd.

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth a ganlyn sydd wedi'i chynnwys yn y Bil:

### **Cymal 175(5) - Pwerau i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1 (fel y'i cyflwynwyd)**

14. Mae cymal 175(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio rhestr o ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru (Rhan 2 o Atodlen 1) a fydd wedi'u hesemptio rhag eu rheoleiddio o dan y Bil. Mae paragraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiadau rhag y Bil sy'n ymwneud â darparwyr addysg a gofal plant. Mae paragraff 10 yn rhoi disgrifiad o'r esemptiad ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan bersonau sy'n darparu addysg neu ofal plant, ac mae Rhan 2 yn rhestru'r darparwyr esempt hynny.

Mae cymal 175(5) yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru o dan reoliadau a wnaed gan offeryn statudol ddiwygio'r rhan o'r rhestr o ddarparwyr esempt yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil sy'n ymwneud â Chymru.

15. Gofynnir am gydsyniad ar gyfer Cymal 175(5) gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Mae diben yr esemptiad ar gyfer addysg a gofal plant yng Nghymru yn seiliedig ar ofynion diogelu statudol sydd eisoes wedi'u gosod ar ddarparwyr. Mae'r darparwyr hyn a gynhwysir yn Rhan 2 o Atodlen 1 yn ddarostyngedig i drefniadau rheoleiddio ac arolygu presennol. At hynny, pe byddai newidiadau o ran darpariaeth addysg neu ofal plant yng Nghymru yn y dyfodol, bydd gan Weinidogion Cymru, drwy offeryn statudol, y pŵer i ddiwygio'r rhestr o ddarparwyr sydd i'w cynnwys yn yr esemptiad. Felly, mae'r pŵer hwn yn bwysig o ran sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn addas i'r dyfodol mewn perthynas â'r esemptiadau penodol hyn a sut y maent yn gymwys yng Nghymru.
16. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi yn y Nodiadau Esboniadol a gyhoeddwyd i'r Bil ei bod yn ystyried bod Cymal 175(5) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly mae'n ceisio cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Cymal hwn.

### **Paragraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 (fel y'i cyflwynwyd)**

17. Mae Cymal 175(5) yn ymwneud yn uniongyrchol â pharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1. Mae'r darpariaethau hynny'n cynnwys esemptiadau rhag y Bil sy'n ymwneud â darparwyr addysg a gofal plant. Mae paragraff 10 yn rhoi disgrifiad o'r esemptiad ar gyfer gwasanaethau gan bersonau sy'n darparu addysg neu ofal plant, ac mae Rhan 2 yn rhestru'r darparwyr esempt hynny. Gofynnir am gydsyniad ar gyfer paragraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud â Chymru oherwydd eu bod yn ymwneud ag addysg a gofal plant, sy'n faterion datganoledig.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Diogelwch ar-lein**

18. Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhyngwyd mewn perthynas â diogelwch ar-lein ac yn rhoi pwerau i OFCOM ac yn gosod dyletswyddau arno. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â "gwasanaethau rhyngwyd", mater a gadwyd yn ôl.

19. Bydd y darpariaethau a fewnosodir gan Gymal 175(5) o'r Bil yn sicrhau bod darparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru yn cael eu hesemptio o'r Bil er mwyn osgoi ac felly peidio â bod yn ddarostyngedig i reoleiddio ychwanegol gan OFCOM ar ben yr hyn a osodir ar hyn o bryd gan ofynion diogelu statudol a/neu gontractiol. Ar hyn o bryd, mae gofynion diogelu sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein ac amddiffyn plant rhag niwed eisoes yn rhan o waith arolygu a rheoleiddio o dan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

20. Mae diogelwch a llesiant pobl yn gyfrifoldeb a rennir ac yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac ar Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhyngwyd yn gyson a fydd yn diogelu pobl Cymru.

### **Goblygiadau ariannol**

21. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

### **Casgliad**

22. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Chymal 175(5) o'r Bil, yn ogystal â pharagraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 iddo, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chymru. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, bydd y darpariaethau'n gwneud newidiadau ymarferol a phwysig i reoleiddio diogelwch ar-lein ledled y DU gan sicrhau hefyd nad yw'r rheoleiddio arfaethedig yn y Bil yn arwain at reoleiddio ychwanegol, diangen nac anghymesur i ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru.

Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydysniad.

**Lee Waters AS**  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**  
**30 Mawrth 2022**